CERDDORIAETH DDISGO UCHEL. GOLEUADAU LLACHAR. MAE'R CERDDOR/DJ YN AD-LIBIO I'R GYNULLEIDFA. Pres

DISGO'R YSGOL. MAE PAWB YN FEDDW.
MAE WES (HEB WISG FFANSI) YN EISTEDD.
MAE RHYS (WEDI'I WISGO FEL DIAFOL) YN DAWNSIO AR EI BEN EI HUN.
MAE ELIN (WEDI'I GWISGO FEL ANGEL) YN CHWILIO AM WES, OND NID YW HI'N EI WELD.

ELS: *All right* Rhys?

RHYS: *Yeah.* Wyt ti?

ELS: *Yeah.*

MAE RHYS YN YMWYBODOL BOD WES YN GWYLIO.

Wyt ti isie dawnsio?

RHYS: (NERFUS) Na! Well i fi beidio. Mam yn y maes parcio. (CURIAD) Disgwyl amdana fi.

ELS: O! (AM Y WISG) *Evil* heno nag wyt ti! (CURIAD) Dwi'n mynd nawr 'fyd.

RHYS: Adra?

ELS: (YN CHWILIO AM WES) Na!

RHYS: (WEDI'I SIOMI) O. Wyt ti'n dal efo fo?

ELS: Gad e.

RHYS: Pleser. Wela i chdi 'fory OK?

ELS: Rhys! Wyt ti 'di meddwi?

RHYS: Ella!

ELS: Wel paid ag anadlu ar ddim un o'r athrawon *then,* OK!

RHYS: Be? O! Crap! *Yeah!* OK.

MAE RHYS YN GADAEL. MAE ELIN YN GAFAEL AM WES. MAE'N TRIO'I HOSGOI HI.

ELS: Dwi isie mynd.

WES: *So?*

ELS: Dod?

WES: Na.

ELS: Beth sy'n bod? (CURIAD) *O come on,* plîs?

WES: Dwi ddim mo'yn!

ELS: (YN PRYFOCIO) Ti'n bod yn *weird* eto!

WES: Ydw i? (CURIAD) Dwi ddim yn dod.

ELS: Pam?

WES: Jyst ddim.

ELS: Pam?

WES: Jyst ddim. *Get lost!* A phaid â dweud pam 'to!

ELS: (YN PRYFOCIO) Pam?

WES: Dwi 'di ca'l digon OK!

ELS: O beth?

WES: O bopeth.

ELS: Beth ydw i 'di 'neud nawr?

WES: *Poor little posh girl!*

ELS: (YN PRYFOCIO) Fi *posh*, ti Becks!

WES: *Yeah well! Get lost.* Cwyno am bob dim.

ELS: Beth?

WES: Dwi isie sefyll fan hyn!

ELS: Doeddet ti ddim hyd yn oed isie dod!

WES: *Yeah.* 'Da ti! Doeddwn i ddim isie dod 'da ti!

ELS: Beth? Dwi ddim yn deall!

WES: Cer wnei di! Os bydd Evans Gwydd yn gwynto'r fodca 'na, byddi di mewn trwbl.

ELS: Beth? *So?* Dwi ddim yn becso. Plîs. Jyst dere.

WES: (YN BENDANT) Dwi ddim isie! A dwi ddim isie mynd ma's 'da ti 'to. Ti'n deall? Wyt ti? Does 'na neb yn ca'l gwneud ffŵl ohono i! *Right?*

ELS: Dwi ddim! Be dwi 'di 'neud?

WES: Jyst *get lost!*

ELS: (DAN DEIMLAD) Dwi'n dy garu di.

WES: Nagwyt ddim. Jyst *get lost* a gad fi fod.

ELS: Na!

WES: (YN COLLI RHEOLAETH, A BRON Â THARO ELIN) Elin! *Get lost* neu dwi'n dweud 'thot ti …

ELS: (YN OFNUS) Beth?

WES: Ydy dy dad di yn dy fwrw di?

ELS: Beth?

WES: Ydy e?

ELS: Beth? (CURIAD) Na. (CURIAD) Ond wedes i ddim ei fod e.

WES: (DAN DEIMLAD) Gadewaist ti i fi feddwl 'i fod e.

ELS: Sori!

WES: Pam? *Bored* oeddet ti?

ELS: (WEDI'I SYNNU) Na! (CURIAD) O'n i isie i ti edrych ar fy ôl i.

WES: Ma' digon o bobl yn edrych ar dy ôl di'n barod Elin. Does neb 'da fi.

ELS: Beth?

WES: Dim byd.

ELS: (CURIAD) Dwi ddim yn hapus gatre.

WES: Wel tria'n galetach 'ta Elin. Falle bydd 'na'n gweithio!

ELS: (DAN DEIMLAD) Wes.

WES: Tria'n galetach Elin. Jyst *get lost.* Cer adre at Mami a Dadi.

ELS: (DAN DEIMLAD) Wes!

WES: *Get lost* OK?

MAE ELIN YN CRIO WRTH I WES ADAEL.

CERDDORIAETH. SŴN GWYNT.

AR BEN CRAIG YR WYLAN MAE ELIN YN DAL YN EI GWISG ANGEL, MEWN DAGRAU. MAE'N MYND YN FWYFWY EMOSIYNOL TRWY GYDOL YR OLYGFA. MAE'N FFONIO RHYS.

MAE RHYS YN EI YSTAFELL WELY, YN CYSGU, OND YN DAL I WISGO EI GYRN DIAFOL. MAE'N DEFFRO YN TEIMLO'N SÂL AC YN ATEB Y FFÔN, EI FEDDWL YN DDRYSLYD.

RHYS: Blydi hel Elin. Be t'isio?

ELS: Rhys?

RHYS: Be? Dwi'n sâl.

SAIB.

Fe fydda i mewn helynt os deffrith Mam.

ELS: Rhys.

RHYS: Dwi'n sâl Els.

ELS: Rhys! Plîs!

RHYS: Pam wyt ti'n haslo fi?

ELS: Plîs.

RHYS: *What?* (CURIAD) Wyt ti 'di meddwi?

ELS: Dwi angen help.

RHYS: *Yeah well!* Dwi'n gwybod hynna!

SAIB.

Els?

ELS: Dwi'm yn gwybod beth i'w wneud.

RHYS: Be?

ELS: Dwi'm yn gwybod beth i'w wneud.

RHYS: Pam?

ELS: Rhys, plîs.

RHYS: Blydi hel! *Why me?*

ELS: Dwi'm yn gwybod beth i'w wneud.

RHYS: *Yeah!* Ddwedest ti!

ELS: Dwi 'di ca'l llond bol.

RHYS: Wel be 'dwi fod i'w 'neud? Ffonia'r Samariaid.

SAIB HIR.

MAE RHYS YN SYLWEDDOLI BOD RHYWBETH O DDIFRIF O'I LE.

Crap. Elin? Lle wyt ti?

ELS: Craig yr Wylan.

RHYS: (YN CAEL BRAW) Be? Craig yr Wylan? Pam?

ELS: Rhwng y tonna a'r cymyla. Tonna mawr lawr fan'na.

RHYS: Beth?

ELS: Ydy'r môr yn cysgu weithie Rhys? Dwi 'di blino.

RHYS: Crap! Paid â mynd yn agos at yr ymyl Els. Els? Els? Ble ma' Wes?

ELS: Ni wedi cwpla. Dwi isie i bopeth stopo mynd yn *wrong.*

RHYS: Els. (SAIB) Els? (SAIB) Elin!

SAIB.

ELS: Pawb yn haslo fi.

RHYS: Pwy?

ELS: Pawb, OK?

RHYS: Nac ydyn Elin!

ELS: A dwi 'di ca'l digon.

RHYS: Ti 'di meddwi. Ma' hyn yn *silly!*

ELS: Does neb yn becso amdana i.

RHYS: Mae pawb yn becso Els.

ELS: Wyt ti?

RHYS: Ydw.

ELS: Wel dere i fy nôl i *then.*

RHYS: Pwy, fi? I Graig yr Wylan? Sut? Alla i ddim.

ELS: Ti'n gweld!

RHYS: Ma' hi'n orie mân y bore, Els. Ma' Mam yn y gwely ers acha. A dydy Dad ddim adra eto.

ELS: Dwi ddim isie iddyn nhw ddod. Dwi isie ti.

RHYS: Fi? Els! Dwi'm yn gallu!

ELS: Does neb ar ga'l pan ti wir eu hangen nhw o's e?

RHYS: Elin! Elin! (CURIAD) OK. Elin aros ble wyt ti!

ELS: Dwi ddim yn ffitio ydw i? Ddim yn plesio neb. Llonydd, dyna'r cwbl dwi isie. Ma' popeth yn crasho lawr rownd fy mhen i.

RHYS: OK. Jyst ista i lawr, ac aros amdana i. Wna i fenthyg car Mam. Dwi ar y ffordd, OK? Bydda i yna rŵan.

ELS: Rhys.

RHYS: Nawn ni siarad, OK? Ti a fi. Dwi'n nôl allweddi Mam y funud 'ma.

ELS: Rhys.

RHYS: Fydda i yna rŵan. Jyst paid â symud, OK? Fydda i yna rŵan.

HEB I ELIN SYLWI, MAE WES YN CYRRAEDD WEDI'I ANAFU, DAN DEIMLAD, AC YN CYDIO MEWN POTEL O FODCA.

ELS: Dwi 'di ca'l digon, Rhys. Plîs.

RHYS: OK. OK.

WES: Els?

ELS: (WEDI DYCHRYN) Wes!

MAE ELIN YN RHEDEG AT WES OND MAE E'N EI GWTHIO HI I FFWRDD.

WES: O'n i'n meddwl mai dyma ble byddet ti. Wedi ca'l digon wyt ti? Wyt ti?

MAE ELIN YN SYLWI BOD WES WEDI'I ANAFU.

ELS: Beth yw 'na?

WES: Bywyd yn rhy galed i ti yw e?

ELS: Wes! Beth sy 'di digwydd?

WES: Crash.

ELS: Beth?

WES: Crash, OK?

ELS: Ti'n gwaedu!

WES: *So?*

ELS: Ti o'dd yn dreifo?

WES: *Yeah. So?*

ELS: Wes!

WES: Yn gyflym! Rili cyflym. Lawr y *main drag. Sounds* arno *full blast.* Pobl ar eu ffordd adre'n syllu. (YN GWEIDDI) 'Ma's o'r ffordd. Ma's o'r ffordd, OK?' Llaw lawr yn galed. Corn yn canu. Cops? Rhywun? (YN GWEIDDI) '*Come on. Come on!* Ble y'ch chi? Gwnewch rywbeth! Unrhyw beth! Stopwch fi wnewch chi!' *Handbrake turn.* Brêcs yn sgrechen. Reit ar waelod y dre'. Reit fan'na. Stopo. (YN GWEIDDI) '*Come on!*' Neb. 'Dwi 'ma! Yn aros! Fe wna i eich rasio chi!' Neb. Refio'r injian. Rwber yn llosgi. 'Sneb yn cymryd unrhyw sylw. Does neb yn dod. Does neb yn becso. Pam bo neb – does dim ots beth dwi'n 'i 'neud – pam does neb yn becso amdana i?

ELS: Wes.

WES: Dy fywyd di'n rhy galed ydy e?

ELS: O's rhywun arall wedi'i anafu Wes?

WES: Wel dyw 'mywyd i ddim yn grêt chwaith.

ELS: Wes! Dwed wrtha i.

WES: Na! Neb arall wedi anafu. Neb wedi anafu. Dim ond fi.

TŶ RHYS.
MAE CERDDORIAETH YN PARHAU DRWY'R OLYGFA. MAE RHYS YN CEISIO PARATOI, MOR DAWEL AG Y BO MODD, AR GYFER MYND I ACHUB ELIN.

RHYS: (YN DAWEL) Crap! Crap! Blydi hel Elin! (YN CEISIO YMDAWELU) OK. OK.

(YN TYBIO EI FOD YN CLYWED EI FAM YN DEFFRO) O crap! Mam. Crap! Crap!

(YN CERDDED DRWY'R TŶ TYWYLL) OK. OK. Allweddi. Lawr grisia. Bwrdd.
(YN COFIO) O! Côt!

(YN GWISGO'I GÔT. YN SYLWEDDOLI BETH MAE'N EI WNEUD) Crap! *Mad!* Rhys! Be ti'n 'neud? Cer yn ôl i'r gwely! (YN AILFEDDWL) Na! Ma' hi'n disgwyl amdanat ti! Dyma dy gyfle di! Ma'n rhaid i fi! Rhaid i fi! (YN MEDDWL EI FOD YN CLYWED EI CHWAER YN DEFFRO) O na! Jen!

(MAE EI FAM YN AMLWG YN GALW. YN ATEB) Na! Fi!
(CURIAD. YN GWRANDO. YN ATEB) Fi. Sori Mam.
(CURIAD. GWRANDO. ATEB) Na. Dwi'n iawn. Nôl diod.
(CURIAD. YN ATEB) Dŵr! Methu cysgu!
(CURIAD. YN GWRANDO. ATEB) Na. Dwi'm yn meddwl bod Dad adra eto!
(CURIAD. GWRANDO. ATEB) *Yeah.* OK.
(CURIAD. GWRANDO. ATEB) *Yeah.* Ma'n rhaid 'i fod o bron adra. Sori Mam. Sori.
(MAE'N GWRANDO ETO AM EILIAD CYN MYND YMLAEN AR EI SIWRNE. MAE'N GAFAEL YN ALLWEDDI CAR EI FAM.)
Allweddi!

(MAE'N CERDDED YN DAWEL DRWY'R TŶ.)
Hisht! *Come on. Come on.* O crap! Alla i ddim coelio 'mod i'n gwneud hyn!

(MAE'N AGOR DRWS FFRYNT Y TŶ, AC WRTH EDRYCH I FYNY, YN GWELD GOLAU YN YSTAFELL WELY EI FAM. YN DAWEL WRTHO'I HUN)

O na! Crap Mam! Ewch yn ôl i'r gwely. Plîs. Plîs! (CURIAD)

(MAE'N MYND I MEWN I'R CAR)
OK, OK Rhys. *Come on, come on.*

(MAE'N GWISGO'R GWREGYS)
Seat belt, ignition. How hard can it be? Tsieco'r drych.
(YN TWTIO'I WALLT AM FOMENT)
Prick! Be dwi'n 'neud?

(YN EDRYCH TUAG AT FFENESTR YSTAFELL WELY EI FAM)
Sori Mam. Dwi wir, wir yn sori!

(YN CANOLBWYNTIO) *Come on* Rhys. Dwi 'di'u gweld nhw'n gwneud hyn gannoedd o weithia.
(MAE'N TANIO'R INJIAN AC YN REFIO'N GALED. MAE'N DYCHRYN) O crap!

(MAE'N DIFFODD YR INJIAN.)
Be o'dd hynna?! (YN CANOLBWYNTIO) *Come on, come on!*

(MAE'N TANIO'R INJIAN ETO, AC YN REFIO. MAE'N AILFEDDWL) Na! *Whoah! Whoah!* Be ti'n 'neud y *prick*? 'Sa Dad yn gallu bod ar ei ffordd i fyny'r lôn 'na unrhyw funud, ac wedyn (MAE'N DYCHMYGU DAU GAR YN CRASHIO) crash! (WEDI DYCHRYN) Allan. Rŵan! Rŵan!

(MAE'N DATOD EI WREGYS, OND WRTH DDECHRAU CAMU ALLAN O'R CAR MAE'N AILFEDDWL) Na! Ma' hi'n disgwyl amdanat ti!

(MAE'N CLYMU'R GWREGYS. OND YN AILFEDDWL) Allan! Rŵan!

(MAE'N PARHAU I GLYMU A DATOD Y GWREGYS.)
Na, alla i ddim – Ia, allan – Methu. – Gallu. – Methu. – Ma'n rhaid i mi!

(WEDI DRYSU'N LÂN)
Elin! Dwi'm yn gwybod beth i'w 'neud!

AR GRAIG YR WYLAN. CERDDORIAETH. SŴN GWYNT. MAE ELIN A WES YN EMOSIYNOL IAWN. MAE ELIN YN YMWYBODOL IAWN O YMYL Y GRAIG, AC MAE'N OFNUS IAWN. MAE WES YN CYDIO'N DYNN YN ELIN.

WES: Cusan.

ELS: Paid.

WES: Un gusan. *Come on!*

ELS: Ry'n ni'n rhy agos at yr ymyl Wes! Paid.

WES: *For old times' sake.*

ELS: Plîs. Paid!

WES: Beth?

ELS: Mae arna i ofn.

WES: Beth? Cusan?

ELS: Nage! Cwympo!

MAE WES YN SYLWEDDOLI PA MOR OFNUS YW ELIN AC YN MANTEISIO AR HYNNY.

WES: O.

ELS: Bydde fe'n gwneud dolur yn bydde fe?

WES: (YN EI THYNNU TUAG AT YR YMYL) Gyda'n gilydd!

ELS: Be?

WES: Ti a fi! (YN GWEIDDI) Hedfan!

ELS: Na!

WES: (YN GWEIDDI) Rhydd!

ELS: Na!

WES: Pam? Lle hardd, pluog, meddal lan 'na wedest ti! (CURIAD) Neu os nad wyt ti isie hedfan ... plymio! I mewn i'r tonnau cynnes 'na! Bydd rhaid i ni gyfrif!

ELS: Beth?

WES: Un, dau, tri! Rhag ofn i un ohonon ni gamarwain y llall.

MAE ELIN YN CRIO.

Bydde pawb yn y twll tin lle 'ma yn siarad amdanon ni! Bydden ni ar y newyddion! (FEL NEWYDDIADURWR) '*Today, two bodies were swept ashore by crashing waves. No ordinary bodies! A merman and mermaid.*'

ELS: Na!

WES: Eiliadau! Dyna'r cwbl fydde fe. Cyn i ni lanio.

ELS: Mae glanio'n swnio'n osgeiddig, prydferth.

WES: *Yeah?*

ELS: Ond fydde fe ddim Wes! Bydden ni ar y creigie. Wedi dryllio!

WES: Bydde fe yn y papure. (CURIAD) Tybed fydde Mam a Dad yn 'i weld e?

ELS: Wes!

WES: Tybed fydden nhw'n becso?

ELS: Wrth gwrs y bydden nhw.

WES: *Yeah?* Dwi'n siarad am fy rhieni i, nid dy rai di, Elin.

ELS: Fe fydde 'na esgyrn yn torri.

WES: Dyw Mam a Dad 'rioed 'di bod 'na i fi.

ELS: Bydde 'na waed. Lot o waed. Bydde fe'n gwneud dolur.

WES: Beth?

ELS: Yn bydde fe? Yn bydde fe?

WES: I ti? Gwneud dolur i ti? Shwt ydw i fod i wybod?

ELS: Beth?

WES: Shwt ydw i i fod i wybod beth fydde'n gwneud dolur i ti? Dwi ddim yn deall dy boen di ydw i?

ELS: Beth?

WES: *Posh pain!* Yr unig fath o boen dwi'n ei ddeall yw ca'l *kicking* on'dife?

ELS: Sori!

WES: Ond does dim disgwyl i ti ddeall y math 'na o boen chwaith o's e? O's e? (CURIAD) Pam wnest ti adael i fi gredu bod dy dad di'n dy fwrw di?

ELS: O! Jyst digwydd wna'th e.

WES: *Yeah?*

ELS: Ie.

WES: *Yeah?*

ELS: Ie! Dwi'n meddwl! Dwi'm yn gwybod! Dwi'n sori!

MAE WES YN TYNNU ELS YN AGOSACH AT YMYL Y CLOGWYN.

WES: Wyt ti? Dere!

ELS: Beth? Na! (CURIAD) Beth os bydd rhywun yn ein gweld ni?

WES: Beth?

ELS: Rhywun. Lawr 'na!

WES: Beth? Pwy?

ELS: Dwi'm yn gwybod! Rhywun! Dwi'm yn siŵr!

WES: Beth fyddan nhw'n ei 'neud? Rhoi stŵr i ni?

ELS: Paid.

WES: Tra bo ni'n disgyn? (YN DYNWARED RHYWUN AR LAN Y MÔR YN EDRYCH I FYNY) 'Beth y'ch chi'n ei feddwl chi'n ei 'neud lan fan 'na, y diawled bach?' Neu ar ôl i ni lanio falle, ife? (YN DYNWARED) ''Shgwlwch ar y *mess* chi wedi 'i 'neud! Pobl ifanc y dyddie hyn!' (YN TYNNU ELIN YN AGOSACH ETO AT YR YMYL) Neu falle y byddan nhw'n trio'n dala ni!

sarcastic

ELS: Paid Wes! Paid. Paid!

WES: Does 'na neb 'na. Drycha. Neb o gwbl. Dim ond ni!

ELS: Na. Neb. Dwi'n gwybod. Dwi'm yn meddwl yn strêt.

WES: Na?

ELS: Na.

WES: Dwyt ti ddim isie wyt ti? (CURIAD) Dyw bywyd ddim mor wael â ti'n meddwl, yw e?

ELS: Dwi'm yn gwybod.

WES: (YN LLAWN DICTER) Ddim yn gwybod? Ddim yn gwybod?

ELS: Dwi'm yn siŵr!

WES: (GORCHYMYN) Cusan.

MAE'N CEISIO EI CHUSANU OND MAE ELIN YN ANFODLON.

Cusan. Fan hyn. Nawr. Ac wedyn penderfyna.

MAEN NHW'N CUSANU. MAE'R GWYNT YN CHWYTHU'N UCHEL IAWN AM FOMENT, CYN GOSTEGU WRTH I WES AC ELIN WAHANU.

SAIB.

Wel? Ydyn ni'n mynd? Ydyn ni? Ydyn ni?

MAE ELIN YN YSGWYD EI PHEN I DDWEUD NA.

Good choice Elin. (CURIAD) Does neb 'rioed wedi becso amdana i, ond dwi'n mynd i fod yn OK, reit? A ti'n gwybod pam? Achos dwi 'di penderfynu. Fi. *So* os yw 'mywyd i werth ei gael Elin, dwi'n eitha siŵr bod dy fywyd di'n werth ei fyw.

ELS: Sori Wes. (CURIAD) Dwi'n rili sori! Ble ti'n mynd?

WES: *Cop shop.*

ELS: Sori.

WES: Ma' car rhywun mewn wal ar gyrion y dre.

ELS: Ddo i 'da ti.

WES: *Get lost.*

ELS: Ti angen 'sbyty.

WES: *Get lost* Elin. Dwi ddim dy angen di.

MAE WES YN GADAEL.

SAIB HIR.

MAE ELIN YN DYCHRYN WRTH GOFIO EI BOD HI WEDI FFONIO RHYS.

O!

MAE HI'N EI FFONIO ETO, OND DOES DIM ATEB.

ELS: *Pick up, Rhys. Pick up! Pick up!*

MAE HI'N GADAEL NEGES.

Gobeithio byddi di'n ca'l y neges 'ma Rhys. Sori, OK? Dim angen ti nawr. Dwi'n mynd adre, OK? Dwi'n *fine.* (WRTHI HI EI HUN) Paid â gwneud dim byd *silly.* Plîs Rhys. Fyddet ti ddim *though* fyddet ti? Byth. Rhy gall. (CURIAD) Siarad 'da ti 'fory. *Yeah.* (CURIAD) Siarad 'da pawb, fory.

MAE ELIN YN GADAEL.

CERDDORIAETH.

A. Byw yn Gymraeg

Enghreifftiau o gwestiynau posibl i agor trafodaeth gan yr arholwr.

Ydych chi wedi cael y cyfle i weld cyflwyniad theatrig yn ystod y cwrs?
Faint o Gymraeg ydych chi'n ei glywed yn eich ardal chi?

B. Trafod Drama *Crash*

Enghreifftiau o gwestiynau posibl gan gynnwys rhai awgrymiadau ar sut i ymateb iddynt.

1. Trafodwch gymeriad Els (Elin).

Byddai disgwyl i'r ymgeiswyr drafod:

- ei magwraeth a'i chefndir
- ei pherthynas â'i rhieni
- ei chymeriad hunanol
- dylanwad Wes arni
- ei chyfeillgarwch â Rhys
- y temtasiynau sy'n ei hwynebu
- ei bwriadau mewn bywyd
- ei phersonoliaeth oriog
- ei datblygiad yn y ddrama a'i pherthynas â'r ddau fachgen

2. Manylwch ar y themâu a amlygir yn y ddrama.

Byddai disgwyl i'r ymgeiswyr drafod:

- gwreiddiau
- cyfrifoldeb
- gofidiau pobl ifanc yn eu harddegau
- dylanwad cyfoedion
- gwrthryfela ieuenctid
- effaith alcohol a chyffuriau
- tyndra rhwng cymeriadau
- cariad a rhamant

3. Awgrymiadau am gwestiynau eraill.

- Yn yr olygfa yn ffreutur yr ysgol ar ddechrau'r ddrama mae Rhys ac Els yn sgwrsio. Beth ydy Barn Rhys am Wes?
- Yn iard yr ysgol mae Wes yn siarad ag Els. Beth mae Els yn ei ddweud am ei thad?
- Sut ddarlun ydyn ni'n ei gael o dad Rhys?
- Mae Wes a Rhys yn cweryla ar iard yr ysgol. Mae Wes yn dweud *'wel, ydy dy dad yn dy fwrw di?'* Beth sydd wedi digwydd?
- Trafodwch un o'r golygfeydd allweddol yn eich barn chi.
- Dadansoddwch y gwrthdaro rhwng y cymeriadau.
- Trafodwch ofnau'r tri chymeriad yn y ddrama.
- Pa olygfa yw'r uchafbwynt yn eich barn chi?
- Trafodwch gymeriadau Wes a Rhys gan fanylu ar bersonoliaethau gwahanol y ddau.

© WJEC CBAC Cyf.

- Ai disgwyliadau rhieni yw un o brif themâu'r ddrama?
- Trafodwch ddiweddglo penagored y ddrama.
- Trafodwch yr hiwmor yn y ddrama.
- Sut, yn eich barn chi, mae'r awdures yn llwyddo i ddal sylw'r gynulleidfa tan ddiwedd y ddrama?
- Ydy'r ddrama yn delio â themâu sydd yn bwysig i bob oes?
- Ydy'r ddrama yn cynnig atebion i broblemau'r cymeriadau?
- Trafodwch yr iaith a ddefnyddir yn y ddrama.
- Wrth sgwrsio mae Els yn dweud wrth Rhys *'Dwi ddim isie dy weld ti 'to.'* Beth sydd wedi digwydd?
- Yn y disgo pam mae Wes ac Els yn cweryla? Mae Wes yn dweud *Dwi wedi cael digon.* Pam mae'r berthynas rhyngddynt wedi newid.

Awgrymiadau'n unig yw'r rhain. Disgwylir i ymgeiswyr fynegi eu barn eu hunain ond rhaid cyfiawnhau barn â thystiolaeth o'r testun.

C. Ymateb i gwestiynau ar themâu penodol (synoptig)

Enghreifftiau o gwestiynau posibl i agor trafodaeth rhwng yr arholwr a'r ymgeisydd.

- Beth yn eich barn chi yw themâu pwysicaf y ddrama *Crash*? Trafodwch unrhyw lenyddiaeth a ddarllenoch chi sy'n delio â'r themâu hyn.
- Wrth drafod y ddrama *Crash* dywedoch chi mae yn eich barn chi y brif thema yw cariad a rhamant / cyfrifoldebau pobl ifanc / gwrthryfela / effeithiau cyffuriau ac alcohol / perthynas cyfoedion â'i gilydd / diffyg cyfathrebu rhwng pobl ifanc a rhieni. Ydy'r thema hon mewn unrhyw lenyddiaeth / lunyddiaeth arall a welsoch?

® WJEC CBAC Cyf.

Uned 5 – Y Gymraeg yn y Gymdeithas a Thrawsieithu – Arholiad ysgrifenedig (2 awr)

Disgwylir i ymgeiswyr ateb dau gwestiwn.

Adran A: Y Gymraeg yn y Gymdeithas

Gosodir cwestiynau cyfansawdd yn ymwneud â'r Gymraeg yn y gymdeithas. Gall yr arholwr osod cwestiynau yn ymwneud â:

(a) Cyd-destun hanesyddol yr iaith Gymraeg o ganol yr ugeinfed ganrif hyd heddiw e.e.
darlith Saunders Lewis, Tynged yr Iaith 1962;
y frwydr dros S4C ac ymgyrch Gwynfor Evans;
sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg;
boddi Cwm Tryweryn a'r ymateb iddo;
deddfau iaith 1967 a 1993;
sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 1993;
sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 1998;
polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith Gymraeg;
dogfen bolisi *Iaith Pawb y Cynulliad* (2003) a
Iaith fyw: iaith byw – strategaeth y Gymraeg 2012-2017;
diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a phenodi Comisiynydd y Gymraeg yn sgil Mesur y Gymraeg (2011).

Gellid edrych ar adnoddau megis y canlynol:
http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/iaith.shtml
http://www.bbc.co.uk/cymru/cymraeg/yriaith/tudalen/hanes.shtml
http://www.gov.uk/cymraeg
http://comisiynyddygymraeg.cymru/cymraeg/Pages/Hafan.aspx
http://www.youtube.com/watch?v=vQT56POFbrM
http://www.youtube.com/watch?v=FGI_ZaZY5e0

(b) Sefyllfa bresennol yr iaith e.e. beth yw'r heriau sy'n wynebu'r iaith yn genedlaethol ac yn lleol, beth sy'n cael ei wneud i hyrwyddo'r iaith heddiw a sut mae hyn i'w weld yn yr ardal leol?
Dylid annog disgyblion i edrych ar eu cyd-destun lleol e.e. ymweld â'r Fenter Iaith ac ymchwilio i waith y Mentrau; mynd i ysgol ddwyieithog / cyfrwng Cymraeg leol i weld beth sy'n digwydd yno; ymwneud â'r Urdd; menter Twf;
yr Eisteddfod Genedlaethol; bandiau Cymraeg lleol; darpariaeth Cymraeg i oedolion; technoleg a'r Gymraeg; sêr lleol sy'n hyrwyddo'r iaith.

Adran B: Trawsieithu (asesiad synoptig)

Gofynnir i'r ymgeiswyr ddarllen deunydd Saesneg ac ymateb i'r deunydd hwnnw drwy ysgrifennu yn y Gymraeg. Gellir gofyn am ymateb ar ffurf llythyr, erthygl neu lunio taflen wybodaeth. Bydd yn ofynnol i'r ymgeiswyr ddeall a dehongli'r cynnwys ac yna fynegi barn ar y testun. Disgwylir iddynt fod yn ymwybodol o'r gynulleidfa y maent yn ysgrifennu ar ei chyfer. Ni ddylid cyfieithu'r darn.

Bydd y darnau darllen yn ymwneud â naill ai newyddion y dydd, neu faterion cyfoes neu ddelwedd o Gymru a'r byd. Gellir darllen erthyglau yn y gwahanol gylchgronau a hefyd drawsysgrifau rhaglenni materion cyfoes ar y radio/teledu wrth baratoi ar gyfer y cwestiwn hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.